Robinwood – Rhoi i Ewrop Wledig Ddyfodol Newydd
'Prosiect Rhyng-ranbarthol Interreg IIIC wedi'i gyllido gan yr UE a'i reoli a'i gydlynu yng Nghymru gan y Comisiwn Coedwigaeth'

Cynnwys: Tudalen

Canlyniadau/Buddion i CCC a'r Sector Coedwigaeth yng Nghymru **2**

Dadansoddiad Cost a Budd **2**

Enghreifftiau o'r Buddion Uniongyrchol i Gymru **3**

Cipolwg ar Robinwood **5**

Cysylltau i Gynllun Corfforaethol CCC **gweler y daenlen ar wahân**

(O bapur a baratowyd gan Kim Burnham, Rheolwr Prosiect Robinwood)

Robinwood – Rhoi i Ewrop Wledig Ddyfodol Newydd
'Prosiect Rhyng-ranbarthol Interreg IIIC wedi'i gyllido gan yr UE a'i reoli a'i gydlynu yng Nghymru gan y Comisiwn Coedwigaeth'

Canlyniadau/Buddion i CCC a'r Sector Coedwigaeth yng Nghymru

Prif ganlyniadau'r prosiect yw:

⇒ Mwy o integreiddio rhwng Cymru a'n partner ranbarthau yn Ewrop
⇒ Gwybodaeth a geir o'r 3 cynhadledd ryng-ranbarthol (Rheoli Coedwigoedd, Tanwydd Coed a Hydroleg)
⇒ 15 is-brosiect (mae Cymru'n bartner mewn 9 o'r is-brosiectau hyn). Gwerth yr is-brosiectau i'r partner ranbarthau unigol, ynghyd â gwerth ychwanegol cyfanswm y cynnyrch o waith yr is-brosiectau rhyng-ranbarthol, a'r is-brosiectau lle nad yw Cymru'n bartner
⇒ Cymorth gyda datblygu polisi ar lefel Gymreig a lefel yr UE
⇒ Arolwg o Farn y Cyhoedd
⇒ Adroddiad ar Danwydd Coed
⇒ Adroddiad ar Gynllunio a Thystysgrifo Coedwigoedd
⇒ Adroddiad ar Hydroleg Coedwig
⇒ Dealltwriaeth well o fecanwaith cyllido'r UE
⇒ Datblygu staff y CC
⇒ Teithiau i astudio Tanwydd Coed a Hydroleg

Dadansoddiad Cost a Budd

Cyfanswm gwariant ar brosiect Robinwood (yn fras)		£4,000,000
Cyfanswm gwariant Cymru		£635k
O hyn	cyllid UE (65%)	£413k
	cyllid CCC (35%)	£222k
Cyfanswm cost is-brosiectau lle mae Cymru'n bartner		£925k
Cyfanswm y cyfraniad Cymreig at hyn		£244k
O hyn	mae'r UE yn cyfrannu	£144k
	mae CCC yn cyfrannu	£78k
Cyfraniadau partneriaid Cymru		£22k

Enghreifftiau o'r Buddion Uniongyrchol i Gymru

Cynllun Gweithredu Coedwigoedd yr UE: Ysgogwyd CCC gan Robinwood i edrych ar Gynllun Gweithredu Coedwigoedd yr UE wrth ddiwygio ei Strategaeth Coetiroedd i Gymru, gan sicrhau parhad o ran polisi ar lefel yr UE ac ar lefel genedlaethol. Hefyd darparodd Robinwood y cyfrwng ar gyfer rhoi adborth ar Gynllun Gweithredu Coedwigoedd yr UE, a'i berthnasedd i lunio Polisi Cenedlaethol, i Gyfarwyddiaeth Gyffredinol Amaeth, Coedwigaeth, Bioamrywiaeth a Newid Hinsawdd yr UE.

Cynadleddau a Theithiau Astudio:

Cynhadledd a Thaith Astudio Brandenburg
Aeth 35 o gynadleddwyr yn cynrychioli trawstoriad eang o'r sector Coedwigaeth yng Nghymru i Gynhadledd Tanwydd Coed a Thaith Astudio Brandenburg.

Cynhadledd a Thaith Astudio Murcia
Aeth10 cynrychiolydd o Gymru i Murcia i gyflwyno ymchwil diweddar o Gymru ar Hydroleg Coedwig a'r defnydd o Goedwigoedd a Choetiroedd i liniaru difrod gan lifogydd. Cafodd cysylltiadau a phartneriaethau ymchwil eu creu rhwng y partner ranbarthau i leihau dyblygu gwaith, er mwyn gwneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau cyfyngedig.

Cynhadledd ac Ymweliadau Maes Cymru
Pwysleisiwyd y cysylltiad agos rhwng Cynllun Gweithredu'r UE a'r Strategaeth Coetiroedd i Gymru a Chynllun Corfforaethol CCC. Digwyddiad rhyngweithiol oedd hwn yn bennaf a esgorodd ar lawer barn - cadarnhaol a negyddol - o Gymru a'r partner ranbarthau. Mae'r wybodaeth a'r meysydd trafod a ddeilliodd o'r gynhadledd wedi rhoi data gwerthfawr i CCC ac wedi cynyddu ei ddealltwriaeth o wahanol safbwyntiau, yng Nghymru'n bennaf.

Er nad oedd rhai o'r negeseuon a gafwyd gan grwpiau cymunedol yn gadarnhaol, nid yw'n golygu nad oeddynt yn ddilys. Roedd angen iddynt gael eu clywed – roedd efallai'n anffodus iddynt ddefnyddio'r gynhadledd i leisio eu barn.

Arolwg ac Adroddiadau

Arolwg o Farn y Cyhoedd. Cyflwynwyd barn ddiweddaraf pobl Cymru am goedwigoedd a choedwigaeth, a chymharwyd hyn â gwybodaeth ein partneriaid Ewropeaidd. Penderfynwyd ar y cwestiynau ar ôl ymgynghori â staff CCC i sicrhau bod yr adroddiad yn cwrdd ag anghenion Cymru. Mae'r ymatebion wedi cael eu dadansoddi a chafwyd gwybodaeth allweddol a fydd yn galluogi staff CCC i dargedu'r gynulleidfa briodol.

Adroddiad ar Danwydd Coed. Cyflwynwyd darlun cyffredinol o gyflwr presennol y sector tanwydd coed yng Nghymru. Hefyd comisiynwyd y Gangen Datblygu Technegol i adolygu'r dulliau cynhyrchu tanwydd coed presennol a'u hyfywedd economaidd o'u cymharu â defnyddio olew.

Adroddiad ar Gynllunio a Thystysgrifo Coedwigoedd. Lluniwyd strwythur yr adroddiad hwn mewn ymgynghoriad â staff CCC i edrych yn bennaf ar y broses cynllunio a thystysgrifo mewn coetiroedd preifat ac i gymharu a chyferbynnu'r rhain â choetiroedd sy'n eiddo i'r cyhoedd. Bydd yr adroddiad terfynol (a ddisgwylir ganol Mai 2007) yn adolygu'r rhesymau dros ddiffyg cynllunio a thystysgrifo yn y sector preifat ac yn cynnig argymhellion at y dyfodol.

Adroddiad ar Hydroleg Coedwig. Mae hwn yn dwyn ynghyd ac yn adolygu ymchwil diweddar yng Nghymru a'n partner ranbarthau. Edrychir ar faterion megis newid yn yr hinsawdd, cynnydd mewn stormydd, sychder yn yr haf a llifogydd yn y gaeaf, gan nodi meysydd lle y mae bylchau yn ein gwybodaeth a chan roi cyfeiriad i'r is-brosiectau Robinwood ac ymchwil cysylltiedig yn y dyfodol.

Is-brosiectau gyda phartneriaid Cymreig

ROBINFLOOD: Bydd yn darparu tystiolaeth a chymorth ar gyfer defnyddio coetiroedd ar hyd afonydd ac ar orlifdiroedd i liniaru llifogydd mewn ffordd gynaliadwy, gan arwain at blannu coetiroedd newydd ar hyd afonydd a rheolaeth well ar y coetiroedd presennol

FRIARTUC: Bydd yn darparu dolen gyswllt hanfodol mewn prosiect ymchwil mwy o faint sydd eisoes ar y gweill (y partneriaid presennol yw Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Comisiwn Coedwigaeth, Coed Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Consortiwm Ymchwil i Reoli Peryglon Llifogydd (FRMCR)). Mae'r prosiect hwn yn edrych ar fodelu Hydrolegol mewn perthynas â Rheolaeth Coedwig, gan helpu i ddarganfod sut y mae coed a choetiroedd yn lleihau llifogydd ac erydiad pridd.

LADY MARION: Defnydd lleol o goed lleol. Bydd yn edrych yn benodol ar wydnwch a thrin coed lleol i'w ddefnyddio mewn tai fforddiadwy, er mwyn darparu cyfleoedd masnachol ar gyfer coed o darddiad lleol, ac adenillion ariannol o goedwigaeth leol.

ALTMAN: Dadansoddiad o Systemau Rheolaeth Coedwig Amgen: Bydd yn cymharu effeithiau strategaethau rheolaeth coedwig amgen ar lifoedd coed. Gwerthusir costau a buddion strategaethau rheolaeth coed amgen yn y sectorau preifat a chyhoeddus. Ceisir gwella dealltwriaeth o pam y mae coetiroedd yn y sector preifat yng Nghymru (Ewrop) yn cael/ddim yn cael eu rheoli, a sut y bydd symudiadau tuag at goedwigaeth gorchudd di-dor a chyfleoedd masnachol newydd yn effeithio ar reolaeth.

DENDROVITA: Edrychir ar botensial coetiroedd bach o fewn tirwedd amaethyddol, fel cyflenwadau coed cynaliadwy a rhwydweithiau o gynefinoedd. Y lleoliad gorau ar gyfer y coetiroedd hyn, gan roi ystyriaeth i gysgod, hydroleg, bioamrywiaeth, cyflenwadau coed/tanwydd coed, a chanfyddiadau'r cyhoedd.

LOCAL PRODUCT 1: Dylunio a phrofi peiriant gwneud pelenni i alluogi busnesau bach yn y diwydiant prosesu coed i droi cynhyrchion coed yn belenni coed o werth uchel.
LOCAL PRODUCT 2: Coed o ansawdd gwaith saer o gnydau conifferaidd. Byddir yn astudio effaith y math o safle a'r systemau rheolaeth a ddefnyddir mewn coedwigoedd conifferaidd ar y gyfran o goed gwerth uwch at ddefnydd gwaith saer a geir. Adnabod coed o ansawdd gwaith saer yn y cnwd sy'n tyfu a phennu ei gynnyrch mewn gwahanol systemau coedwriaethol, ac argymell yr arfer gorau ar gyfer cynyddu i'r eithaf goed o werth uwch.

LOGINWOOD: Cadwynau cyflenwi tanwydd coed. Adolygu'r data presennol am y tanwydd sydd ar gael. Sefydlu cromliniau cyflenwi ar gyfer defnydd coedwigaeth ar sail pris y farchnad. Cyflwyno elfen ddynamig i'r set ddata drwy gynnwys gwybodaeth allanol am brisiau ac ymgorffori effeithiau costau cludiant a defnyddio'r set ddata hon i greu erfyn tracio rhyngweithiol i gadw llygad ar adnoddau.

WEM. Addysg a marchnata egni coed. Adolygu'r systemau tanwydd coed presennol o fewn y partner ranbarthau. Defnyddir y data a gesglir i hysbysu llunwyr polisi, diwydiant a darpar osodwyr o'r cyfleoedd a gynigir gan dechnolegau tanwydd coed.

WE HAVE ENERGY HOME: Paratoir canllawiau arfer gorau ar gyfer cynhyrchu tanwydd coed mewn coetiroedd bach i ganolig, gan hybu cynhyrchu a defnyddio tanwydd coed fel rhan o'r ymgyrch i reoli coetiroedd Cymru a datblygu Cymru wledig mewn ffordd gynaliadwy.

Datblygu Staff y CC: Mae'r tîm Polisi a Chynllunio ac unigolion o fewn y tîm wedi cael profiad gwerthfawr o Reoli Prosiectau ac o reolaeth ariannol ar brosiectau Ewropeaidd mawr. Rydym hefyd wedi cael profiad a gwybodaeth o fecanweithiau cyllido Ewropeaidd a fydd yn ein galluogi i reoli prosiectau'n well yn y dyfodol i sicrhau'r gwerth gorau i Gymru a CCC.

Cipolwg ar Robinwood

Cyflwyniad

1. Mae Robinwood (RW) yn rhan o Raglen INTERREG IIIc. Pwrpas y rhaglen hon yw cryfhau cydlyniad economaidd a chymdeithasol yn yr Undeb Ewropeaidd drwy hybu cydweithio rhyng-ranbarthol. Y nod cyffredinol yw gwella effeithiolrwydd polisïau datblygu rhanbarthol drwy gyfnewid gwybodaeth ar raddfa fawr a rhannu profiad mewn ffordd strwythuredig.
2. Ariennir y rhaglen INTERREG IIIc gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, ac fe'i cyd-ariennir gan bartneriaid y prosiect. Prosiect Gweithrediad Fframwaith Rhanbarthol (RFO) yw Robinwood. Mae hyn yn golygu bod y partneriaid yn ymgymryd â rhai agweddau ar gyflawni'r prosiect, ond eu bod hefyd yn gweithredu fel 'rheolwr prosiect bach' ac yn is-gontractio rhannau o'r prosiect i gyrff cyhoeddus eraill i'w cyflawni ar ran Robinwood.
3. Y partner arweiniol ar gyfer RW yw Liguria yng ngogledd yr Eidal. Y partneriaid eraill, yn ogystal â Chymru, yw Brandenburg (Yr Almaen), Murcia (Sbaen) a rhanbarthau Kosice a Presov yn Nwyrain Slofacia.

Hanes y Prosiect

Yn 2001, dechreuodd Liguria geisio partneriaid ar gyfer y prosiect hwn ar sail y broses cadwyn goed, dan dynnu ynghyd bolisïau gwahanol adrannau i greu ymagwedd integredig. Dechreuodd Cymru ymddiddori yn y prosiect drafft yn 2003 ac aeth ati gyda'r darpar bartneriaid i ddechrau llunio'r cais. Cafodd y cais ei gymeradwyo'n derfynol ym mis Tachwedd 2004 a bydd yn rhedeg hyd fis Mawrth 2008.

Crynodeb o'r Prosiect

4. Mae gan RW bum cydran neu thema. Y rhain yw:

		Partner Arweiniol
I.	Rheoli a Chydlynu	Liguria
II.	Gwelliannau Hydro-ddaearegol	Murcia
III.	Datblygu Coedwigaeth	Cymru
IV.	Cynhyrchu Egni o Goed	Brandenburg
V.	Cyfathrebu	Liguria

5. Mae datblygu coedwigaeth, defnyddio coedwigoedd i leihau difrod gan lifogydd ac erydiad pridd, a defnyddio biomas coed i gyd yn chwarae rhan yn natblygiad economaidd-gymdeithasol ardaloedd gwledig. Dylai'r astudiaethau a phrosiectau a wneir gan Robinwood helpu i gryfhau cyfraniad coetiroedd at yr economi gwledig.

Amcanion y Prosiect

6. Y prif amcanion yw:

⇒ Datblygu a chymharu systemau datblygu coedwigaeth priodol a helpu i ddiffinio polisïau coedwigaeth rhanbarthol. Cynyddu potensial economaidd-gymdeithasol y sector coedwigaeth a chynyddu twf a chystadleurwydd cyffredinol drwy ystyried y goedwig fel ffynhonnell cynnyrch ond hefyd drwy hybu datblygiad cynaliadwy coedwigoedd ym mhob ffordd bosibl.
⇒ Defnyddio coedwigoedd i gyfyngu ar lifogydd neu eu hatal.
⇒ Lleihau'r defnydd o danwyddau ffosil drwy hybu cynhyrchu egni adnewyddadwy yn lleol, gan ddefnyddio coed yn danwydd.